**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**
**Microsoft Teams**
**Dydd Mercher 2 Ebrill 2025 10:30 – 12:30**

## Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS (Cadeirydd) | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip |
| Y Fonesig Nia Griffith | Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Mark Hobrough | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Mark Travis | Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro, Heddlu De Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Dave Guiney | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Cydweithredu Heddluoedd Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Matt Downton | Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| Laura Fox | Pennaeth VAWDASV, Llywodraeth Cymru |
| Alison Thomas | Pennaeth Newid Ymddygiad o ran Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru |
| Sasha Yilmaz | Pennaeth Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jenna Harris | Swyddog Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Chris Llewelyn | Prif Weithredwr CLILC |
| Grant Oliver | Tîm Cymru a Lloegr, Tiriogaethau Domestig a Thramor y DU, y Swyddfa Gartref |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Helen Hill | Rheolwr Busnes a Datblygu Rhwydweithiau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| David Holloway-Young – | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Harri Evans-Mason | Rheolwr Rhaglen, Cydweithredu Heddluoedd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Sarah Keefe | Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Plismona yng Nghymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Amy Rees | Prif Weithredwr, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLILC |
| Paul Biggs | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Bydd Matt Downton yn cyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Guiney o fewn yr wythnos nesaf i drafod Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru (WSAS). | Matt Downton |
| Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn uwchgyfeirio mater asesiadau o fewn prosesau recriwtio a gynhelir gan y Coleg Plismona a fydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. | Mike Connolly/ Sasha Yilmaz |
| Bydd papur yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â'r materion yn ymwneud â Thensiynau Cymunedol a'i ddosbarthu i aelodau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru (PPBfW) | Paul Morris |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y cyfarfod a diolchodd i'r Fonesig Nia Griffith am ymuno i gynrychioli Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Croesawodd Swyddogion y Swyddfa Gartref a nododd ei bod hi'n falch o fod wedi cyfarfod â'r Gweinidog dros Blismona, y Fonesig Diana Johnson ym mis Chwefror 2025.

Diolchodd y Cadeirydd i'r bwrdd am eu cyfraniadau tuag at y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a gymeradwywyd ar 16 Rhagfyr 2024. Cynghorodd fod pob Ysgrifennydd Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo tuag at y gymeradwyaeth derfynol.

## 2. Diwygio'r Dirwedd Plismona a'r Bil Troseddu a Phlismona: Cynnydd a Myfyrdodau

Esboniodd y Comisiynydd Llywelyn fod aelod o staff o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi cael ei secondio i weithio gyda Chymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (APCC), gan gysylltu â'r Swyddfa Gartref gyda Thîm Diwygio Tirwedd yr Heddlu, y mae'n teimlo ei fod wedi arwain at lais Cymreig wedi'i hymgorffori'n dda yn y gwaith.

Nododd fod ei waith yn mynd rhagddo o hyd ac mae wedi symud ymlaen o'r cam ymgysylltu yr oedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru yn rhan fawr ohono. Esboniodd y bu trafodaeth arwyddocaol mewn perthynas ag endidau canolog megis y Coleg Plismona a Blue Light Commercial a sut y gall y rhain fod yn gweithio ochr yn ochr â'r Ganolfan Blismona Genedlaethol. Fodd bynnag, teimla'r Comisiynydd Llywelyn fod llawer o'r drafodaeth yn cael ei dylanwadu gan y gwaith ar wahân yn ymwneud â Strwythurau Maerol yn Lloegr a Datganoli yn Lloegr a all effeithio ar strwythurau sefydliadol heddluoedd. Disgwylir y Papur Gwyn erbyn diwedd y Gwanwyn 2025.

**2.1.** Cynghorodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod Prif Gwnstabliaid hefyd wedi secondio cyflogeion i dîm yr heddlu sy'n gweithio gyda swyddogion o fewn y Swyddfa Gartref. Cydnabu ei fod yn gadarnhaol fod yr heddlu wedi cael y cyfle i gyfrannu. Mae hyn wedi galluogi'r heddlu i ddeall nod y gwaith, gan gynnwys targedau cenedlaethol fel haneru Trais yn erbyn Menywod a Merched a Throseddau'n Ymwneud â Chyllyll a sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni o fewn y setliad ariannol y mae'r maes plismona yn ei gael. Nododd hefyd fod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas ag effeithlonrwydd fel proses gaffael genedlaethol sy'n cynnwys Blue Light Commercial, yn ogystal â sut caiff perfformiad heddluoedd ei fesur. Mae Prif Swyddogion wedi bod yn cyfrannu at y gwaith hwn, gan sicrhau y tynnir sylw at y gwahaniaethau yng Nghymru gan nad yw Plismona a Chyfiawnder Troseddol wedi'u datganoli yng Nghymru, yn ogystal â'r gwahaniaethau mewn Deddfwriaeth yng Nghymru, er enghraifft Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol nad yw'n gymwys i Loegr. Mae hyn yn cymharu materion fel Lefelau Troseddau Treisgar sy'n anodd yng Nghymru o gymharu â Lloegr, ffaith sydd wedi'i phwysleisio i swyddogion.

**2.2.** Nododd y Cadeirydd ei fod yn gadarnhaol fod y maes Plismona yng Nghymru wedi secondio staff, gan fod angen sicrhau y caiff tirwedd Cymru ei hadlewyrchu'n gywir. Mae'n teimlo ei fod yn gyfle i sicrhau bod y system yn cefnogi gweithgarwch a goruchwyliaeth yr heddlu yn effeithiol felly mae angen datblygu gweithgarwch drwy ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol, gan fod gwasanaethau wedi'u datganoli

eraill fel tai, iechyd meddwl a'r gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol hefyd.

Cyfeiriodd yn gryno at y Bil Troseddu a Phlismona a gyflwynwyd ar 25 Chwefror 2025, gan esbonio bod y darpariaethau yn y Bil yn cwmpasu ystod eang o faterion a gedwir yn ôl fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, dedfrydu a themâu eraill sy'n ymestyn ar draws gwaith Llywodraeth Cymru o ran gwasanaethau datganoledig. Mae'r tîm cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad llawn o'r Bil, y mae'r mwyafrif ohono wedi'i gadw'n ôl, ar wahân i rai cymalau yn ymwneud â'r meysydd a soniwyd uchod, felly mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â phroses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Esboniodd y gall fod rhywfaint o oedi mewn perthynas â gosod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn Fil cymhleth a hirfaith, felly diolchodd i Swyddogion Llywodraeth Cymru, Uned Gyswllt yr Heddlu a rhanddeiliaid dibynadwy wrth helpu i lywio'u dealltwriaeth o'r swyddi polisi ac ni nodwyd unrhyw linellau coch. Cymeradwywyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan Weinidogion perthnasol a bydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd yn fuan.

**2.3.** Nododd y Comisiynydd Llywelyn y gall Diwygio Tirwedd yr Heddlu gynnig cyfle i ystyried beth sydd ei angen yng Nghymru ac a fyddai'n amser addas i ddatganoli plismona i Gymru, a gaiff datganoli yn Lloegr ei symud tuag at Strwythurau Maerol.

**2.4.** Nododd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi symudiad tuag at ddatganoli plismona yng Nghymru a bod gwaith yn mynd rhagddo ond cydnabuwyd y strwythurau gwahanol iawn sydd wedi dod i'r amlwg; mae Llywodraeth y DU wedi etifeddu llawer o'r rheini felly mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y materion hyn. Ychwanegodd ei bod hi a'r Comisiynydd Llywelyn wedi croesawu'r Gweinidog Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn ddiweddar gan fod datganoli Cyfiawnder Ieuenctid yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gwneud cynnydd arno gan ei fod yn ymuno â gwasanaethau sydd mor bwysig i'r System Cyfiawnder Ieuenctid.

## 3. Blaenraglen Waith Arfaethedig ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru 2025/26

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a gwnaeth gydnabod y ffaith fod yr heddlu yn bartneriaid dibynadwy i Lywodraeth Cymru a arweiniodd at ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chylch Gorchwyl diwygiedig. Mae'r rhain yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydweithio ar flaenoriaethau ar y cyd, gan nodi bod Gweinidogion wedi cymryd rhan mewn datblygu'r Blaenraglen Waith, sy'n canolbwyntio ar faterion parhaus a materion sy'n dod i'r amlwg.

**3.1.** Pwysleisiodd y Comisiynydd Llywelyn werth y bartneriaeth a faint mae'r maes plismona yn ei werthfawrogi; rhoddodd yr enghraifft o Liz Lalley a Mike Connolly yn mynychu cyfarfodydd misol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru, yn ogystal â Paul Morris yn Uned Gyswllt yr Heddlu.

**3.2.** Mae'r Prif Gwnstabl Blakeman yn teimlo bod y Flaenraglen Waith yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru yn cydweithio ac yn cysylltu ynghylch materion fel Diwygio Tirwedd yr Heddlu a Chynlluniau Trosedd ac ati felly ceir cysylltiad da ar ddeall y weledigaeth strategol gyfan. Ychwanegodd er bod amcanion y bwrdd yn dda, maent yn uchelgeisiol felly mae'n teimlo mai cyfrifoldeb plismona yw cytuno beth y gallant ei gyflawni'n ymarferol yn 25/26 a sut mae hynny'n cysylltu â chyrff eraill a datblygiad ehangach y polisi i sicrhau eu bod yn ddylanwadol ac yn cyflawni ar gyfer cymunedau.

**3.3.** Nododd Paul Morris yn y Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru diwethaf ym mis Rhagfyr 2024, fod pedair thema lefel uchel wedi'u cytuno arnynt a chafodd y dasg o roi mwy o fanylion yn erbyn y rhain, gan ychwanegu amcanion, eu cysylltu â deddfwriaeth a datblygiad polisi ehangach. Roedd hefyd yn awyddus croesgyfeirio'r Rhaglen gyda Chynllun Heddlu a Throseddu pob Comisiynydd yng Nghymru. Nododd iddo fod yn destun ymgynghoriad gan Grŵp Prif Swyddogion Cymru a Phlismona yng Nghymru ac roedd un ychwanegiad i'w nodi yn sgil hyn, sef bod gwella'r ymateb i ddigwyddiadau mawr a chritigol yn y camau ymateb ac adfer wedi'u cynnwys o dan y Cydweithrediad Plismona ac Iechyd. Ychwanegodd er nad oedd Diwygio Tirwedd yr Heddlu yn gweddu i unrhyw un o'r meysydd thematig, hoffai Plismona argymell ei fod yn dod yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer y PPBfW wrth symud ymlaen gan ei fod yn faes gwaith

arwyddocaol. Ategodd y pwynt a wnaeth yn PPBfW mis Rhagfyr nad yw'r flaenraglen waith yn hepgor codi unrhyw faterion eraill sy'n dechrau dod yn hollbwysig i unrhyw un o'r partneriaid.

**3.4.** Cydnabu'r cadeirydd bod angen bod yn hyblyg ac mae'n teimlo ei fod yn bwysig bod yn agored am y Flaenraglen Waith, er mwyn dangos y gwaith sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth, o ran atebolrwydd yn y Senedd ac felly hoffai rannu hyn ar raddfa ehangach.

**3.5.** Teimla Joanne Hopkins fod yr ymrwymiad i gymryd Dull Iechyd y Cyhoedd ymhlyg yn y cynllun hwn ac aeth ati i ddweud ei bod hi'n bwysig iawn ystyried Fframwaith Cymru Heb Drais o ran y gydran Plant a Phobl Ifanc, gan ei fod yn galluogi atal cychwynnol.

## 4. Plismona a Chydweithrediad Iechyd: Arwain a Rheoli Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan gydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth i ddarparu'r gwasanaethau pwysig a sensitif hyn ond nododd fod Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Abertawe (SARC) wedi cael ei hystyried yn wreiddiol fel Gorchwyl a Gorffen a'i bod hi'n amlwg bod angen trefniadau i gefnogi gwaith mewn partneriaeth tymor hwy. Cynghorodd fod disgwyl iddi gyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fuan, lle bydd hyn ar yr agenda. Nododd y Cadeirydd fod Matt Downton, Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru yn bresennol.

**4.1.** Croesawodd y Comisiynydd Wools sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd mewn perthynas ag ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i Raglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru (WSAS) a nododd fod Plismona yng Nghymru wedi uwchgyfeirio hyn i PPBfW yn sgil pryderon mewn perthynas â'r risg i wasanaethau rheng flaen a'r effaith ar ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol, a hynny oherwydd sefyllfa bresennol y rhaglen. Disgrifiodd y Comisiynydd Wools gefndir y rhaglen, gan ddatgan mai cydweithrediad dan arweiniad Iechyd ar y cyd â thri o Heddluoedd De Cymru ydyw. Ei nod yw darparu model iechyd effeithiol a chynaliadwy i ddarparu SARCs a darpariaeth yn y gymuned arbenigol gysylltiedig fel gwaith argyfwng a chwnsela. Pwysleisiodd er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae llywodraethiant wedi dirywio ers diwedd 2023, ac mae'n credu mai'r rheswm dros hyn yw'r newidiadau mewn trefniadau arweinyddiaeth a strwythurol o fewn Cydweithrediaeth y GIG. Mae angen deall y camau ac amcanion heb eu cadarnhau ac i fod yn glir ynghylch sut mae trawsnewid yn edrych ac i ba strwythur. Cynghorodd ei bod wedi cael nifer o drafodaethau, y rhai diweddaraf gyda Judith Paget am y materion sy'n codi o'r rhaglen. Cynghorodd y Comisiynydd Wools fod Judith Paget yn cefnogi plismona sy'n ceisio mynd i'r afael â materion a chymryd camau ar unwaith ar rai materion hollbwysig sy'n weddill fel materion ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r angen i ailsefydlu llywodraethiant y rhaglen, felly mae'n falch o ddweud bod cynnydd wedi'i wneud.

**4.2.** Ategodd y Dirprwy Gomisiynydd bwyntiau'r Comisiynydd Wools, gan ddatgan na ellir pwysleisio pwysigrwydd dod o hyd i ddatrysiad yn ddigon. Er bod llawer wedi'i gyflawni o ran y cam cyntaf, mae meysydd her sylweddol yn parhau. Mae'n teimlo ei bod yn rhoi cyfle i gryfhau arweinyddiaeth a darpariaeth y rhaglen yn ei ystyr ehangaf. Cydnabu cyfraniad plismona, yn enwedig yn nhîm Cydweithredu Heddluoedd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru wrth gefnogi'r broses o ddarparu'r rhaglen yn 24/25.

**4.3.** Esboniodd Matt Downton fod gan ei dîm gyswllt polisi gyda SARCs felly mae'n fodlon bod yn bwynt cyswllt ar gyfer plismona. Roedd hefyd am nodi er bod y rhaglen yn mynd trwy'r trefniadau trosiannol, bu newid hefyd mewn sefydliadau drwy sefydlu Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru a Chydweithrediaeth y GIG felly roedd am roi sicrwydd i'r bwrdd pan fyddai'n cael llythyrau gan y maes plismona, y bu Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â Chydweithrediaeth y GIG a'r Cydbwyllgor Comisiynu mewn perthynas â'r materion hynny. Maent yn y broses o sefydlu Bwrdd Rhaglen er mwyn adolygu'r camau gweithredu a'r trefniadau trosiannol i ddarparu eglurder. O ran cwnsela, talodd y Cydbwyllgor Comisiynu'r gost am y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac mae wedi cyfarfod â Llwybrau Newydd yn ddiweddar ac wedi cadarnhau'r lefel cyllid.

**4.4.** Diolchodd y Comisiynydd Wools i Matt Downton am yr eglurhad ac oherwydd cymhlethdodau'r rhaglen, awgrymodd gyfarfod ag ef ochr yn ochr â'r Dirprwy Gomisiynydd Thomas a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Guiney i edrych ar rai o'r materion er mwyn cael y sefyllfa fwyaf adeiladol i'r Bwrdd Rhaglen pan gaiff dyddiad ei osod. Gofynnodd hefyd a allai'r drafodaeth am gyllid barhau gan fod y bwlch sy'n weddill o ganlyniad i rywfaint o'r gwaith y dylai'r adran Iechyd fod wedi'i ddatblygu.

**4.5.** Nododd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas fod y cyfarfod wedi'i gynnal gyda Llwybrau Newydd ond roedd am bwysleisio nad yw'r trefniadau cwnsela mewn perthynas ag un darparwr yn unig; mae amrywiaeth o ddarparwyr ac ni fydd y setliad yn diwallu anghenion presennol y ddarpariaeth gwnsela yn nhair ardal ddaearyddol Heddlu Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru, gan adael diffygion yn y ddarpariaeth ym mhob ardal felly, fel y soniodd y Comisiynydd Wools, byddai'n ddefnyddiol iawn cyfarfod er mwyn gweithio trwy ddatrysiad.
**Cam Gweithredu: Bydd Matt Downton yn cyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Guiney o fewn yr wythnos nesaf i drafod Rhaglen WSAS.**

**4.6.** Cytunodd Matt Downton i gyfarfod ac ychwanegodd ei fod yn fodlon cadw'r drafodaeth am gyllid ar agor gan fod y Cydbwyllgor Comisiynu wedi comisiynu'r hyn y mae'n gallu ar hyn o bryd ond mae'n dal i weithio ar hyn. Mae'r Adolygiad Cwnsela yn mynd rhagddo ac mae'n credu y bydd yn cymryd rhyw dri mis.

**4.7.** Nododd y Cadeirydd ei bod hi'n awyddus i gael diweddariadau ar gynnydd hyn ond ategodd ei phwynt cynharach bod disgwyl iddi hefyd gyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 5. Llinell Gymorth Byw Heb Ofn: 20 Mlynedd yn Cefnogi Dioddefwyr

Roedd y Cadeirydd am wneud nodyn o'r ymrwymiad hirsefydlog i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd trwy Linell Gymorth Byw Heb Ofn sydd wedi bod yn cefnogi dioddefwyr ers 20 mlynedd a dathlu hynny. Dywedodd iddi ymweld â chanolfan y llinell gymorth a bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i weithio ar draws y system gyfan a datblygu ei dull trawslywodraethol trwy Lasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

Roedd am dynnu sylw'r bwrdd fod Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar gael bob awr o'r dydd a'r nos a'i bod yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n cael profiad o niwed, beth bynnag fo'u rhywedd neu oedran, yn ogystal â'u teuluoedd, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol. Yn 2023/24, ymdriniodd y ganolfan â bron i 30,000 o ymholiadau sydd wedi cael cymorth pob heddlu i hyrwyddo a rhannu gwybodaeth gysylltu mewn sawl man cyhoeddus.

**5.1.** Ategodd Laura Fox, Pennaeth VAWDASV yn Llywodraeth Cymru fod y llinell gymorth ar gael bob awr o'r dydd a'r nos a'i bod hefyd yn derbyn atgyfeiriadau ar-lein. Nododd ei bod hefyd yn cael llwybrau atgyfeirio ymlaen fel rhan o'r gwasanaeth, felly mae'n darparu gwasanaeth canolog sy'n deall y dirwedd a gynigir i ddioddefwyr yng Nghymru. Nododd fod gwaith yn cael ei gynnal i asesu rhai o'r synergeddau rhwng y llinellau cymorth.

**5.2.** Diolchodd y Fonesig Nia Griffith am y gwahoddiad i'r cyfarfod a dangosodd werthfawrogiad o glywed y diweddariad i fynd i'r afael â VAWG a nododd fod disgwyl i Richard Clarke o'r Swyddfa Gartref ymweld â Chaerdydd ym mis Ebrill 2025, felly mae Swyddogion Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Uned Gyswllt yr Heddlu i gael y budd mwyaf o'r ymweliad hwn.

### 6a.) Cyllidebau 2025/26

Esboniodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ei chyllideb derfynol ar 4 Mawrth 2025, gan sicrhau £1.6bn ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus a blaenoriaethau, yn ogystal â phob adran yn Llywodraeth Cymru yn elwa ar gynnydd mewn refeniw a chyllid cyfalaf. Cododd y cynlluniau gwariant cyfalaf £575m, sy'n gyferbyniad mawr i'r blynyddoedd blaenorol pan oedd angen i Lywodraeth Cymru wneud

penderfyniadau anodd i ailffurfio cynlluniau gwariant a gostwng cyllidebau, ond cydnabu bod yna sefydliadau o hyd yn wynebu pwysau.

**6.a.1.** Roedd y Comisiynydd Mudd am bwysleisio bod croeso i'r buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod y Comisiynwyr yn parhau i weithio drwy waith comisiynu gyda darparwyr trydydd sector er mwyn deall effaith bosibl y codiadau mewn Yswiriant Gwladol ar gontractau ond roedd am nodi pa mor gadarnhaol yw cael buddsoddiad ychwanegol a gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth mewn ffordd mor adeiladol.

**6.a.2.** Rhoddodd David Holloway-Young ddiweddariad ar y ffordd y mae heddluoedd yn rheoli eu cyllidebau ar gyfer 2025/26, gan ddisgrifio'r Cyllidebau Refeniw Net ar gyfer pob heddlu ac mai'r cynnydd cyfartalog ar Braesept Band D drwy Gymru oedd 7.59%. Gwnaeth llunio rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, a hynny gan weithio ar sail cynnydd o 7% mewn praesept ac edrych ar ragolygon gan ddefnyddio cyllid amcanol o lefelau amrywiol gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, arwain at gapiau ar y gyllideb ond pwysleisiodd nad yw cynyddu'r praesept 7% yn sefyllfa yr hoffai pob Comisiynydd fod ynddi oherwydd yr argyfwng Costau Byw. Fodd bynnag, pwysleisiodd pe bai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn lleihau'r praesept i 6%, y byddai'n arwain at ddiffyg ychwanegol o £5m mewn plismona yng Nghymru.

**6.a.3.** Diolchodd y Comisiynydd Llywelyn i David am y diweddariad; nododd fod darn o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â chadernid ariannol heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan ddisgwyl i bethau fynd yn fwy heriol dros y blynyddoedd nesaf wrth i lefelau'r cronfeydd wrth gefn ostwng, yn enwedig ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf gan nad oes cyllid cyfalaf ar gael i heddluoedd. Yn ogystal, mae codiadau mewn Yswiriant Gwladol a chynnydd mewn costau staff wedi cael effaith ar bwysau yn ystod y flwyddyn ac roedd am dynnu sylw at yr effaith uniongyrchol y bydd hyn ei gael ar wasanaethau a gomisiynwyd. Ceir lefel praesept uwch yng Nghymru o gymharu â heddluoedd Lloegr ac o ganlyniad, mae cymunedau lleol yng Nghymru yn talu mwy am wasanaethau plismona drwy braesept. Mae heddluoedd yn cael eu cymell i wneud hyn oherwydd y setliadau tlotach maent wedi'u cael yn flaenorol. Fodd bynnag, roedd yn croesawu cyllid Plismona yn y Gymdogaeth, a fydd yn galluogi pob heddlu i gryfhau ei Dimau Plismona yn y Gymdogaeth, ochr yn ochr â'r buddsoddiad mewn PCSOs y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu. Esboniodd ei uchelgais i fanteisio ar yr addewidion a'r buddsoddiadau hyn megis Cyllid Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i wneud gwahaniaeth mewn cymunedau, felly hoffai ddarparu diweddariadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol yn hyn o beth.

**6b.) Cyllid a Gwerthusiad PCSO – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu/Llywodraeth Cymru**
Agorodd y Comisiynydd Mudd yr eitem drwy fynegi ei gwerthfawrogiad ar ran Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru mewn perthynas â'r buddsoddiad pellach sydd wedi'i ddarparu. Maent wedi cael cyfle i drafod y cynnig am y gwerthusiad ac mae pawb wedi cytuno bod gwerthusiad o hwn yn hanfodol o ran datblygu'r sail dystiolaeth. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd wedi cytuno i ddarparu cyfraniad allweddol at y gwerthusiad.

**6.b.1.** Esboniodd Mike Connolly fod Llywodraeth Cymru yn y broses o gomisiynu'r gwerthusiad, ac maent yn gobeithio y bydd yn adrodd yn ôl naill ai ar ddiwedd 2025 neu ar ddechrau 2026.

**6.c.1.) Adolygiad o Bartneriaeth Lleihau Damweiniau GanBwyll**
Nododd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Guiney bod plismona yng nghyd-destun GanBwyll wedi cymryd nifer o fesurau sy'n cynnwys stopio recriwtio, rhoi saib ar wariant cyfalaf a newidiadau i rai gweithdrefnau gweithredu er mwyn lleihau hyd a lled diffyg GanBwyll ar gyfer 24/25. Yn dilyn trafodaethau rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth a'r Prif Gwnstabliaid Jeremy Vaughan ac Amanda Blakeman, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i leihau'r diffyg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu adolygiad o Fodel Gweithredu cyfredol GanBwyll lle mae Trafnidiaeth Cymru wedi comisiynu gwasanaethau Mott MacDonald. Mae copi drafft o'r adolygiad wedi dod i law tîm Cydweithredu Heddluoedd Cymru sydd wrthi'n cael ei adolygu. Ar ôl iddo gael ei gwblhau, bydd canfyddiadau'r adolygiad yn hanfodol i symud ystod o weithgareddau gwella yn eu blaen ar draws GanBwyll drwy raglen Cydweithredu Heddluoedd Cymru.

**6.c.1.** Ychwanegodd Alison Thomas fod disgwyl i gyfarfod o Grŵp Llywio GanBwyll gael ei gynnal i adolygu'r argymhellion yn fanylach gyda'r nod o gytuno ar ffordd gyfunol ymlaen. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth wedi cytuno i ariannu £3.6m ychwanegol gyda £600,000 ohono'n mynd i Ymgyrch Ugain a £3m i'r Bartneriaeth Diogelwch Camerâu. Ceir cydnabyddiaeth y gall fod angen adolygu hyn eto ond nododd mai dyma'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â chyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

**6.c.2.** Mynegodd y Prif Gwnstabl Blakeman ei diolchgarwch am y drafodaeth am gyllid gyda Ken Skates AS ond gofynnodd i Plismona yng Nghymru gymryd rhan lawn yn yr adolygiad gan ei bod hi'n teimlo bod rhai tybiaethau yn yr adroddiad drafft na fydd y maes plismona yn gallu gweithredu arnynt.

### 7. Unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio gan Plismona yng Nghymru ar 12 Mawrth 2025 a Grŵp Prif Swyddogion Cymru ar 25 Mawrth

Nododd y Comisiynydd Llywelyn fod tair eitem wedi'u rhestru yn yr agenda fel achosion o uwchgyfeirio.

**7a.) Proses Asesu'r Gymraeg i Swyddogion yr Heddlu**
Esboniodd y Prif Gwnstabl Blakeman ei bod hi wedi bod yn lobïo'r Coleg Plismona i sicrhau bod proses recriwtio ar waith sy'n gallu gweithredu o fewn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, rhywbeth nad yw'n digwydd ar hyn o bryd. Cynigir rhannau o'r broses recriwtio yn ddwyieithog, ond yr hyn sy'n bwysig yw mai dim ond dau brawf ar-lein mewn perthynas ag ymddygiadau a gwerthoedd a gynigir yn Saesneg. Mae hi'n awyddus i sicrhau nad yw ymgeiswyr dan anfantais oherwydd y defnydd o'r Gymraeg, sy'n anhygoel o bwysig i Heddluoedd Cymru, yn enwedig yng Ngogledd Cymru lle maent yn dibynnu ar allu recriwtio o gymunedau sy'n siarad Cymraeg i allu plismona'r gymuned yn effeithiol. O ganlyniad, cynhaliwyd trafodaethau gydag Andy Marsh o'r Coleg Plismona mewn perthynas â hyn.

Dywedodd fod pryder mewn perthynas â'r ffordd y gallant gynnig y prawf ymddygiadol ar-lein mewn ffordd sy'n ymgorffori'r Gymraeg yn gywir. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r seicolegwyr sy'n llunio'r profion i gyfieithu a dadansoddi hynny, ond mae cost ynghlwm â'r gwaith hwnnw gyda rhywfaint o dybio mai Cymru fydd yn talu amdano. Fodd bynnag, mae'n teimlo gan mai Coleg i Gymru a Lloegr ydyw, mai'r Coleg ddylai dalu. Y rheswm dros uwchgyfeirio i'r PPBfW yw er mwyn ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y gall Heddluoedd Cymru barhau i recriwtio'n gywir, a hynny mewn ffordd sy'n gwasanaethu cymunedau yng Nghymru drwy ymdrin ag unigolion sydd wedi bod trwy brofiadau trawmatig yn eu hiaith gyntaf i gael y manylion gorau ganddynt a'r cymorth gorau iddynt.

**7.a.1** Cytunodd y Cadeirydd ar bwysigrwydd gwasanaethu cymunedau drwy ddefnyddio'r Gymraeg a chydnabu'r her o berswadio'r Coleg Plismona i gymryd cyfrifoldeb am hyn. Nododd y byddai gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddiddordeb yn y mater hwn, felly bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei swyddfa yn ymwybodol o hyn.
**Cam Gweithredu: Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn uwchgyfeirio mater asesiadau o fewn y Coleg Plismona i fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**7b.) Diweddariad ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Seiliedig ar Grŵp**
Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi ei bod hi'n gadarnhaol gweld bod yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi lansio ei hymgyrch ar-lein ar 20 Mawrth 2025; mynegodd ei phryder mewn perthynas â blacmel rhywiol lle y caiff plant a phobl ifanc eu targedu, sy'n gysylltiedig ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

**7.b.1.** Rhoddodd y Prif Gwnstabl Blakeman sicrwydd bod heddluoedd wedi bod yn adolygu achosion i sicrhau nad ydynt wedi colli unrhyw fanylion yn y maes penodol hwn ac o ran Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Seiliedig ar Grŵp, mae'r ffocws cenedlaethol wedi bod ar gamfanteisio seiliedig ar y stryd sydd wedi bod yn digwydd ym mhob rhan o'r DU. Mae'r heddluoedd yn mynd yn ôl i edrych ar bob digwyddiad o'r natur hwn i sicrhau nad yw'r materion sylfaenol hyn yn bresennol, yn ogystal ag edrych ar gam-fanteisio'n rhywiol

ar blant seiliedig ar sefydliadau fel ysgolion i sicrhau bod gwaith yn y lle iawn gyda llywodraethu a diogelu cadarn.

**7.b.2.** Nododd y Prif Gwnstabl Lewis er na all heddluoedd roi sicrwydd mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Seiliedig ar Grŵp, mae'r Comisiynydd Llywelyn wedi bod yn dwyn Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif i sicrhau nad yw'r materion hynny'n digwydd yn ardal yr heddlu. Cydnabu bod hwn yn faes hynod bwysig o waith plismona ond rhan o'r gwaith yn Heddlu Dyfed-Powys yw atgoffa cymunedau bod hon yn risg y dylai'r cyhoedd fod yn ystyriol ohoni, yn ogystal â'r ffaith fod y mwyafrif helaeth o droseddau rhywiol yn digwydd mewn grwpiau teuluol.

**7.b.3.** Diolchodd y Cadeirydd i'r bwrdd am y diweddariadau a nododd fod pwyntiau pwysig wedi'u gwneud felly mae'n teimlo ei bod hi'n bwysig adolygu'r Ymchwiliad Annibynnol a oedd yn cwmpasu'r holl faterion hyn. Nododd fod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng Prif Weinidog Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru ym mis Ionawr 2025 mewn perthynas â'r mater hwn, ond mae'n bwysig ei bod hi'n gallu adrodd yn ôl ar y diweddariadau hyn pan gaiff ei chwestiynu ar y materion hyn.

**7c.) Asesu a Rheoli Tensiynau Cymunedol**
Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi o ran y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, mai un o nodweddion pwysig hyn yw monitro tensiynau cymunedol sy'n dod i'r amlwg, gweithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Plismona yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i densiynau sy'n dod i'r amlwg. Diolchodd i Heddluoedd Cymru am ymgysylltu â'r Timau Cydlyniant yn effeithiol iawn. Cafwyd cynnydd mewn bygwth ymgeiswyr yn yr Etholiad Cyffredinol diweddaraf ac mae pryderon y gall yr un peth fod yn wir am Etholiadau'r Senedd yn 2026; ceir sefydliadau eraill hefyd a welodd staff yn cael eu bygwth a'u haflonyddu, gan gynnwys Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a grwpiau ymgysylltu â'r gymuned ledled Cymru, felly mae'n bwysig ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ar y paratoadau, yn ogystal â'r Coleg Plismona a Llywodraeth y DU.

**7.c.1** Nododd Paul Morris i'r mater hwn gael ei godi yng Ngrŵp Prif Swyddogion Cymru gan y Prif Gwnstabl Vaughan a'i fod yn gwneud rhywfaint o waith yn Heddlu De Cymru. Teimlai ei fod yn haeddu cael ei uwchgyfeirio i'r PPBfW fel rhybudd cynnar o ran rhai o'r mesurau y gall fod angen iddynt eu cymryd ond ceir materion ehangach hefyd felly awgrymodd lunio papur y gellir ei ddosbarthu i holl aelodau PPBfW er mwyn rhoi mwy o ddealltwriaeth o'r materion iddynt.
**Cam Gweithredu: Bydd papur yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â'r materion yn ymwneud â Thensiynau Cymunedol a'i ddosbarthu i aelodau PPBfW.**

**7.c.2.** Esboniodd y Comisiynydd Wools ei bod hi'n disgwyl cael diweddariad ar hyn y diwrnod canlynol ond o'r hyn y mae hi'n ymwybodol ohono, byddai'n argymell rhywfaint o waith cydweithredol mewn perthynas â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein a sut y gall gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i ymateb i hyn, ynghyd â negeseuon clir yn hyn o beth.

**8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (16/12/24)**
Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir a nodwyd bod cam gweithredu 2 o'r cyfarfod ar 16 Hydref 2024 yn mynd rhagddo.

**9. Unrhyw Fater Arall**
Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Travis ar ei ymddeoliad sydd i ddod, gan gydnabod iddo ddarparu ymrwymiad nodedig mewn Argyfyngau Sifil a bu'n ddylanwadol wrth lofnodi Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Iau 17 Gorffennaf 2025 10:00-12:00